

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd y Cyfarfod yng Nghanolfan Gymunedol Trelech ar yr 8fed o Orffennaf 2019 am 8.00yh.

Cynghorwyr yn bresennol: Ambrose Lewis (Cadeirydd), Andrew Jones, Linda Davies, Alyson Harries, Ann Sillars, Derrick Harries & Arwyn Jones & Cynghorydd Sir Jean Lewis.

Cyhoedd yn bresennol: Steffan Harries, Len Davies, Teleri Bowen, Bethan James, Ffion Harries, Eleri Rees, Siâron Hooper, Katy Brenchley & Elizabeth Cross

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

- **Ymddiheuriadau:** Eirian Howells, Dyfed Davies & John Phillips
- **Sylwadau'r Cadeirydd:** Agorwyd y cyfarfod gan Ambrose Lewis a diolchodd i bawb am fynychu.
- **Sylwadau'r Cyhoedd:**

Roedd y cadeirydd yn ymwybodol fod y cyhoedd yn bresennol i nodi eu pryder am gyflymder y traffig drwy pentref Trelech. Nododd y clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad gyda Chyngor Sir Gâr I nodi eu pryder am gyflymder y traffid ond nid oedd y Cyngor Sir y gwel y pentref yn flaenoriaeth ar gyfer mesurau tawelu traffig. Cymherodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis i'r llawr i nodi ei bod hithau hefyd wedi bod mewn cysylltiad gyda'r adrannau perthnasol o fewn y Cyngor Sir. Nododd Jean fod y Cyngor Sir yn gweithio ar y cyd gyda Heddlu Dyfed Powys a Gwasaneth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i drefnu mesurau tawelu traffig. Mi'r oedd 'rhifyddion' wedi eu gosod yn y pentref dwy flynedd yn ôl ond roedd y canlyniadau yn rhy isel i weithredu unrhyw fesurau. Nododd y cyhoedd fod y 'rhifyddion' wedi eu gosod mewn mannau anghywir y tro diwethaf. Nododd Jean ei bod wedi godyn i'r 'rhifyddion' cael eu gosod eto yn y pentref ac y byddai'n trefnu cyfarfod arall gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gosod yn y mannau cywir y tro nesaf. Nododd y pentrefwyr hefyd fod y swmp o draffig drwy y pentref wedi cynyddu yn yn sylweddol dros y cyfnod yma ac bod angen cymryd hyn i ystyrieth. Gofynnodd Jean i'r clerc gysylltu gyda'r 'PSCO' i weld a oedd unrhyw mesurau amgen ar gael. Argymhellwyd gosod goleuadau fflachio cyflymder a gostwng y cyflymder i 20mya gan ddechrau gyda deiseb. Codwyd y ffaith hefyd nad oedd y Cyngor Sir wedi cydnabod derbyn cais llynnedd am 'ffyrdd diogel'. Byddai'r cais yn cael eu gwblhau eleni eto. Ar y pwynt yma, penderfynnodd y cyhoedd gadael y cyfarfod.
- **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y 13eg o Fai 2019, cytunwyd a llofnodwyd fel cofnod cywir.
- **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Is-Gadeirydd – Cytunodd Mrs Linda Davies i fod yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn.
 - Ronanny – mi'r oedd y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda'r cyfreithiwr Mr Stephen Hill ynghyn a chofnodi y tir gyda'r Gofrestra Tir. Nid oedd hyn yn bosib gan nad oedd y tir wedi yn gaeedig. Roedd y clerc wedyn wedi cysylltu gyda Mr Tony Williams o Gyngor Sir Caerfyrddin yn nodi pryderon y Cynghorwyr. Mi'r oedd Mr Williams wedi bod allan yn ymweld a'r sefyllfa ac y byddai'n adrodd yn ôl i ddarganfyddiadau.
 - Cysgodfan Bws – roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r Mr Tony Williams o Gyngor Sir Caerfyrddin ac mi'r oedd wedi bod allan yn ymweld y niwed. Roedd yn disgwyl am amcan bris i'w atgyweirio.

- Clunfelyn – roedd y clerc wedi cerdded y llwybr a tynnu lluniau o’r gwaith oedd angen eu wneud. Cytunodd y Cynghorwyr gyfarfod ar 27/7/19 i gerdded y llwybr.
- Cadwyn y Cadeirydd – Roedd y gadwyn wedi ei ddanfon i Thomas Fattorini i’w ddiweddarau ac roedd wedi ei ddychwelyd wedi ei gwblhau. Nid oedd anfoneb am y gwaith wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

6. Gohebiaeth

- 6.1) Roedd y ffurflenni ‘ffyrdd diogel’ wedi eu derbyn ac mi ffyddent yn cael eu cwblhau gan Lywodraethwyr yr ysgol fel yn 3 uchod.
- 6.2) Roedd llythyr nodi diddordeb mewn grant goleuo cymunedau wedi dod i law. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ymgeisio am y grant i ddiweddarau y goleudau stryd i LED gyda grant di-log i’w dalu yn ôl dros 8 mlynedd.
- 6.3) Roedd 4 cais cynllunio wedi dod i law ac wedi eu danfon i’r Cynghorwyr:
- W/38864 Codi annedd yn Cefn Cloch, Meidrim
 - W/38931 Lledaenu llwybr coedwigaeth yn Allt Ty Hen, Pandy
 - W/38985 Codi annedd yn Plot 11, Maes Cawnen, Trelech
 - W/38984 Codi Polyn Telegraff 15M yn Fferm Bronllan, Penybont
- 6.4) Roedd anfoneb wedi dod wrth Mr H I Bowen, yr archwilydd mewnol am £390.00 yn cynnwys TAW. Cytunwyd i’w dalu.
- 6.5) Roedd gwybodaeth wedi dod wrth Bwrdd Iechyd Hywel Dda am y bwriad am uned Trawma yn Ysbyty Glangwili.

7. Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £703.44

Roedd cais am adennill TAW wedi ei gyflwyno ac roedd ad-daliad o £296.24 wedi ei dderbyn.

Roedd y ffurflen flynyddol wedi ei gyflwyno i Archwilwyr Cymru.

8. Unrhyw Fusnes Arall

- Roedd Rheolau Stadudol y Cyngor wedi eu diweddarau i rheolau 2018. Roedd Rheolau Stadudol 2018 wedi eu dosbarthu i’r Cynghorwyr eisioes ac fe penderfynwyd eu mabwysiadu.
- Roedd Rheolau Ariannol y Cyngor wedi eu diweddarau a’u danfon i’r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Penderfynwyd i’w mabwysiadu.
- Roedd angen diweddarau Rhestr datgan buddiannau y Cynghorwyr. Derbyniodd yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol copi papur i’w cwblhau a’u dychwelyd yn y cyfarfod nesaf.
- Gofynnwyd i edrych mewn i’r Hawl i Gerdded yn y cae o flaen Manteg, Dinas.
- Codwyd y ffaith fod cyflwr yr heol rhwng Glaspant & Dinas yn Penybont yn wael ac hefyd y ffaith fod coeden yn edrych yn beryglus yn yr un ardal. Nododd y Cynghorydd Sir Jean Lewis bod cyfarfod wedi ei drefnu ganddi gyda Mr Tony Williams ac y byddai’n edrych ar y ddau fater yma.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a terfynwyd y cyfarfod am 9.15yh.

